

CYFARFOD	Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd
DYDDIAD	4ydd Chwefror 2022
ENW	Adroddiad Adolygu – Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus
PWRPAS	Cyflwyno sylwadau derbyniwyd ynghyd a ymateb swyddogion y Gwasanaeth i'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghyd a Adroddiad Adolygu wedi ei ddiweddarau.
ARGYMHELLIAD	<ul style="list-style-type: none"> i) Bod y Pwyllgor yn derbyn y newidiadau arfaethedig i'r Adroddiad Adolygu sydd wedi ei gynnig yn Atodiad 2. ii) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo yr Adroddiad Adolygu (yn Atodiad 2, gan gynnwys y newidiadau arfaethedig) fel yr adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Cyngor Llawn Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.
AWDUR	Rebeca Jones, Rheolwr Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd

1.0 CEFNDIR

- 1.1 Cyn cychwyn paratoi Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig mae'n rhaid paratoi Adroddiad Adolygu a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan nodi pa fath o adolygiad y bydd yn cael ei dilyn. Mi fydd aelodau'r Pwyllgor yn cofio trafod yr Adroddiad Adolygu mis Hydref 2021 a chytuno i'r Adroddiad Adolygu fod yn destun cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus.
- 1.2 Rhyddhawyd yr Adroddiad Adolygu Drafft ar gyfer cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 5ed Tachwedd a 20fed Rhagfyr 2021. Derbyniwyd 329 o sylwadau gan 48 unigolyn.

2.0 Trosolwg o sylwadau derbyniwyd.

- 2.1 Mae'r sylwadau dderbyniwyd ar yr Adroddiad Adolygu ynghyd ac ymateb y gwasanaeth i'w weld yn Atodiad 1. Roedd nifer fawr o'r sylwadau a dderbyniwyd ddim yn benodol berthnasol i bwrpas yr ymgynghoriad ar yr Adroddiad Adolygu, gan eu bod nhw yn gofyn am newidiadau penodol i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Er hyn, bydd cyfle i ystyried newidiadau wrth fynd drwy'r broses o baratoi Cynllun Diwygiedig. Mae'r holl sylwadau perthnasol mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael eu hystyried sydd wedi arwain y Gwasanaeth i argymhell newidiadau i'r Adroddiad Adolygu. Mae'r union newidiadau sydd wedi cael ei argymhell i'w gweld yn Atodiad 1 a 2. Mae'r prif newidiadau wedi eu gosod allan isod.

1. Cynnwys cyfeiriad yn rhan 2 o'r ddogfen i:

- a. Canllawiau Ddeddf Teithio Llesol (Gorffennaf 2021) (cyhoeddiad Llywodraeth Cymru)

- b. Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025 (cyhoeddiad Llywodraeth Cymru)
- c. Datganiad Ardal Morol (cyhoeddiad Cyfoeth Naturiol Cymru)
- d. Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

2. Cynnwys testun sydd yn rhoi diweddariad ynghylch a'r oedi yn cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 15 diwygiedig yn Rhan 2

3. Man newidiadau i'r testun er mwyn cywirdeb.

2.2 Gan nodi mai prif bwrbas yr Adroddiad Adolygu yw dod i gasgliad ynglŷn a pa fath o adolygiad y dylid ei ddilyn (adolygiad ffurf fer neu ffurf llawn), yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, gellir cadarnhau fod y dystiolaeth berthnasol yn dal yn dod i'r casgliad y dylid cynnal adolygiad llawn, sef paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig.

3.0 Camau Nesaf ac amserlen

3.1 Mae'r camau nesaf wedi cael ei osod allan yn y tabl isod.

Cyflwyno'r Adroddiad Adolygu terfynol i Gyngor Llawn – Cyngor Gwynedd er mwyn cael cytundeb i gyhoeddi'r Adroddiad Adolygu a'i yrru ymlaen i Lywodraeth Cymru	3ydd Mawrth 2022
Cyflwyno'r Adroddiad Adolygu terfynol i Gyngor Llawn - Cyngor Sir Ynys Môn er mwyn cael cytundeb gyhoeddi'r Adroddiad Adolygu a'i yrru ymlaen i Lywodraeth Cymru	10fed Mawrth 2022

4. Argymhelliad

- i) Bod y Pwyllgor yn derbyn y newidiadau arfaethedig i'r Adroddiad Adolygu sydd wedi ei gynnig yn Atodiad 2.
- ii) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo yr Adroddiad Adolygu (yn Atodiad 2, gan gynnwys y newidiadau arfaethedig) fel yr adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Cyngor Llawn Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

ATODIAD 1: Adroddiad Ymgynghori ac Argymhellion Swyddog

ATODIAD 2: Adroddiad Adolygu wedi ei ddiweddarau